



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI

Date and Time

6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 18FED HYDREF, 2016

Lleoliad

Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(DISTRIBUTED 10/10/16)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Cynghorydd Michael Sol Owen
Cynghorydd Hefin Underwood
Cynghorydd Peter Read

Aelod Lleol
Aelod Lleol
Aelod Lleol Abererch

Aelodau Cyfetholedig:

Ifor Hughes
Stephen Tudor
David Dewsbury
Wil Partington

Andrew Picken
Cynghorydd Mici Plwm
Clive Moore

Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch
Cynrychioli Clwb Hwyllo Pwllheli a Plas Heli
Cynrychioli Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli
Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol
Pwllheli
Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli
Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli
Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli

Sylwedyddion:

Cynghorydd Mandy Williams-Davies
Cynghorydd David Richardson
Cynghorydd Gethin Glyn Williams
Dr John Jones-Morris

Aelod Cabinet Economi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog

RHAGLEN

1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2016/17.

2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2016/17.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

6. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016, fel rhai cywir.

7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

7 - 23

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 21 Mawrth 2017.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 22/03/16

Presennol: Y Cyngorydd Michael Sol Owen (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Hefin Underwood (Cyngor Gwynedd), David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli), W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Cyngorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli) a Stephen Tudor (Clwb Hwyllo Pwllheli).

Hefyd yn bresennol: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd), Clive Moore (Sefydliad y Bad Achub) a'r Cyngorydd Gethin Glyn Williams (Sylwedydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw).

1. CROESO

Estynnwyd croeso i'r Cyngorydd Hefin Underwood a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 20 Hydref, 2015 fel rhai cywir.

4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad cryno o'r cyfnod rhwng Hydref 2015 a Mawrth 2016, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Arfaethedig ar gyfer Llamhidyddion yr Harbwr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Arfaethedig newydd ac estynedig ar gyfer adar y môr, nodwyd y dylai'r mudiadau, pe dymument, gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad yn uniongyrchol. Cadarnhawyd mai 19 Ebrill 2016 oedd dyddiad cau'r ymgynghoriad.
- Gofynnir i aelodau dynnu sylw'r Gwasanaeth i faterion yng nghyswllt y Cod Diogelwch Morwrol;
- Bod oediad o ran llunio Mesuryddion Perfformiad drafft mewn perthynas â rheolaeth yr harbyrau a thraethau. Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yr ymchwiliir i fesuryddion a ddefnyddir gan eraill er llunio rhai oedd yn mesur effaith, ansawdd a diogelwch. Cylchredir y mesuryddion drafft i sylw'r aelodau.
- Cynhaliwyd archwiliad gan Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar 24 Chwefror 2016. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at ddiffyg y gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion 'Panar' ac yn tynnu sylw fod angen caniatâd Tŷ'r Drindod cyn newid lleoliad cymhorthyddion mordwyo. Nodwyd nad oedd yn ymarferol bosib bob tro i dderbyn caniatâd ymlaen llaw.
- Yn dilyn ymgynghori gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol yn y cyfarfod blaenorol, cytunwyd ar leoliadau'r bwiau parth cyflymder uchaf a chadarnhawyd bod angen parhau i gynnal bwiau ar draeth Marian y De yn 2016. Cytunwyd bod angen addasu bwiau parth cyflymder uchaf ardal Glandon er adlewyrchu'r gweithgareddau sydd yn cael

eu cynnal yn yr ardal hon o harbwr Pwllheli. Nodwyd y byddai'r cynllun newydd yn weithredol o fis Mai ymlaen.

- Y gwnaed gwaith i garthu ceg yr harbwr a lefelu gwely'r sianel a gwneir gwaith pellach yn ystod yr Haf i gadw'r lefelau. Fe wneir arolwg hydrograffeg dros yr wythnosau nesaf i gadarnhau'r lefelau.
- Bod 67K tunnell o ddefnydd a garthwyd wedi ei symud i Garreg y Defaid.
- Manylwyd ar sefyllfa gyllidebol yr Harbwr a'r Hafan hyd at ddiwedd Chwefror 2016.
- Manylwyd ar y ffioedd gan nodi bod modd i unigolion dalu mewn 10 rhan daliad am angorfa flynyddol yn Hafan Pwllheli gyda'r gost bellach ond yn 5% yn uwch na thalu mewn un taliad o gymharu â 8% yn uwch yn flaenorol. Gobeithir y byddai'r opsiwn o dalu yn y modd hwn yn annog deiliad i aros a denu eraill i gymryd angorfa flynyddol.
- Amlygwyd buddsoddiadau yn y cyfnod gan nodi yn 2016/17 y gwneir gwaith ar gysgodfan a phont droed Cei Gogledd yn dilyn ymgynghori efo'r Cyngor Tref.
- Y gobeithir y bydd gwellhad o ran y sefyllfa o gychod pŵer a badau dŵr personol yn cael eu lansio drwy drefniant cwmnïau masnachol yn ardal Penrhyn Glandon heb eu cofrestru gyda chyfarwyddyd wedi ei roi i'r cwmnïau bod rhaid cofrestru cyn ceir mynd ar y dŵr.

Nodwyd y penderfynwyd yn y cyfarfod blaenorol y byddai'r mudiadau unigol yn cysylltu efo'r gwasanaeth i roi eu barn o ran symud angorfeydd yr harbwr allanol o ardal 5 i 6 i ardal 7 yn wyneb y ffaith bod yr ardal wedi cau i fyny yn sylweddol a'r costau o ran eu cynnal a chadw.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli bod y gymdeithas wedi cadarnhau i'r gwasanaeth nad oedd gan y gymdeithas wrthwynebiad i'r bwriad. Ychwanegodd bod Siambr Fasnach Pwllheli wedi lleisio pryder bod y bwriad yn golygu gwahaniaethu pysgotwyr lleol a oedd yn defnyddio'r angorfeydd yma. Nododd aelod ei fod wedi derbyn cwynion nad oedd y Cyngor yn gweithredu mewn ffordd a oedd yn rhoi cymorth i bobl leol.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol y gallai'r gwasanaeth ymchwilio i ddefnydd o rwystrau hanner rwystr a oedd yn atal cychod rhag rhwbio yn ei gilydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n ymchwilio i'r defnydd hwn. Yng nghyswilt y cwynion gofynnodd i'r aelodau eu cyfeirio at y gwasanaeth a nododd bod sedd ar y Pwyllgor Ymgynghorol i gynrychiolydd Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch.

Gofynnodd Rheolwr Harbwr Pwllheli i'r aelodau hysbysu'r gwasanaeth o unrhyw waith cynnal a chadw oedd angen ei wneud. Nododd y Cadeirydd y dylai'r Rheolwr anfon rhestr o'r gwaith cynnal a chadw bwriedig i'r aelodau.

PENDERFYNWYD bod Rheolwr Harbwr Pwllheli yn anfon rhestr o'r gwaith cynnal a chadw bwriedig i'r aelodau.

Manylodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar y strwythur staffio gan nodi bod aelod o staff wedi gadael cyflogaeth y Cyngor oherwydd salwch ac y dymunir yn dda iddo. Nodwyd y byddai adolygiad o'r strwythur staffio yn yr wythnosau/misoedd nesaf.

PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr unigolyn yn mynegi diolch am ei wasanaeth a nodi dymuniadau gorau.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y derbyniwyd copi terfynol o'r Strategaeth Garthu ar gyfer harbwr Pwllheli. Darparwyd copïau i'r aelodau yn y cyfarfod a nodwyd yr anfonir copi electronig atynt yn ogystal. Nodwyd y disgwylir am gadarnhad ffurfiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru o ran hawliau awdurdod harbwr.

Nodwyd y gobeithir y byddai'r gwaith a wnaed yn ddiweddar ar geg yr harbwr a'r sianel yn ei wneud yn fwy hwylus o ran mordwyo. Edrychir yn arbennig ar y tymor byr o ran y strategaeth a gan fod yr aelodau wedi cyfeirio at bwysigrwydd cyflwr y forddwyd, y byddai'r gwaith yma yn flaenoriaeth gweithredu.

Nododd y Cadeirydd bod y Strategaeth yn allweddol bwysig i'r harbwr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed pryd y byddai'r gwaith ar y forddwyd yn cymryd lle, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yr angen i baratoi cynllun manwl ac i weithredu tu fewn i'r adnoddau. Nodwyd y rhagwelir y byddai cynllun gweithredu mewn lle yn y 2 flynedd nesaf.

Nododd Cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli bod angen buddsoddi er mwyn atal deunydd rhag dod i mewn i'r harbwr a byddai'r gwariant yn arwain at gyflawni arbedion blynyddol.

Yn ystod y cyfarfod ymatebwyd i sylwadau'r aelodau gan y swyddogion fel a ganlyn:

- Y croesawir derbyn gwybodaeth o ran ymateb gadarnhaol aelodau Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli i holiadur yng nghyswllt yr Harbwr a'r Hafan ac y gweithir ymhellach efo'r Gymdeithas.
- Na fyddai addasu bwiau parth cyflymder uchaf ardal Glandon yn effeithio ar weithgareddau Plas Heli.
- Bod darpariaeth ysgolion diogelwch yn uwch na'r gymhareb ofynnol o 1 i bob 30 angorfa gyda 6.7 ysgol i bob 30 angorfa.
- Y cysylltir efo'r Adran Cyllid i nodi bod y Pwyllgor Ymgynghorol o'r farn bod targed incwm yr Hafan yn rhy heriol.
- O ran ffioedd, bod gwaith i'w wneud o ran ail edrych ar y strwythur a'r angen i lunio achos busnes oherwydd yr oblygiadau ariannol ar y Cyngor.

Rhoddyd diweddariad ar weithgareddau a gynhaliwyd ac y cynhelir yn fuan ym Mhlas Heli gan gynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli. Nodwyd y byddai'r Dywysoges Anne, Llywydd y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol (RYA) yn ymweld â Phlas Heli ar yr 8fed o Ebrill yn ystod cystadleuaeth yr RYA lle byddai oddeutu 350 yn cystadlu.

Diolchwyd a llongyfarchwyd cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli a'r holl staff am eu gwaith mewn adeg heriol a nodwyd gwerth Plas Heli i'r economi leol.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ychwanegu 'a Phlas Heli' i deitl cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli. Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli y dylid ystyried ychwanegu sedd ar gyfer Plas Heli rhag ofn y byddai gwrthdaro o ran buddiant. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y ceisir cael cysondeb o ran nifer y seddi ar y Pwyllgorau Ymgynghorol ac y byddai'n rhaid ail-edrych ar y cyfansoddiad os am ychwanegu sedd.

Nododd cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli pe cyfyd unrhyw fuddiant y byddai'n ei ddatgan.

PENDERFYNWYD diwygio teitl cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli i 'Cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli a Phlas Heli'.

5. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 18 Hydref, 2016.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.20pm

CADEIRYDD

Tud. 6

Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
DYDDIAD	18 Hydref 2016
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr
AWDUR	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr Harbwr ac i dderbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion a fu yn ymwneud yn uniongyrchol a'r harbwr.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor Ymgynghorol am y cyfnod Ebrill 2016 hyd at Hydref 2016

2. Harbwr Pwllheli (allanol)

- 2.1 Yn 2016/17 roedd nifer cychod ar angorfeydd yn yr Harbwr allanol fel a ganlyn; -
- Mae 58 cwch wedi angori yn yr harbwr. Mae hyn yn cymharu gyda 87 cwch a fu wedi angori yn 2015.
 - Mae 69% o'r cwsmeriaid blynyddol gyda chwch hwylio. Mae 31% gyda chwch pwer.
 - Mae 46% o'r cwsmeriaid yn breswyl yng Ngwynedd gyda 54% yn breswyl tu allan y sir.
 - Mae 8 cwch masnachol yn yr harbwr allanol; 6 Cwch Pysgota; 1 Cwch Starter ac 1 Cwch masnachol Iard Cychod lleol.
- 2.2 Ar y cyfan, er y gwelwyd lleihad mewn nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf mae nifer o gwsmeriaid a fu wedi angori yn Ardal 5 ac Ardal 6 yn 2015 wedi manteisio ar y cyfle i angori ar angorfeydd pontŵn Plas Heli yn 2016. Roedd y trefniant hwn drwy ganiatâd a chydweithrediad Plas Heli. Y prif reswm dros gyflwyno'r cynnig i ail leoli cychod i bontŵn Plas Heli oedd oherwydd bod angen cynllunio gwaith sylweddol ar angorfeydd yn Ardal 5 a 6 a chan fod yna bryder ynglyn a chyflwr yr angorfeydd.
- 2.3 Mae 18 cwch wedi manteisio ar y cyfle i angora ar bontwn Plas Heli ac mae 7 cwch yn parhau ar angorfa yn Ardal 5 a 6. Golygai hyn buasai cyfanswm cychod ar angorfeydd yr Harbwr allanol ar y cyfan yn 83.

2016	Heb ei osod	Gost yr Angorfa fesul medr	Nifer ar gael	Canran yn wag
	Not allocated	Berth Fee per mtr	No of berths available	Percentage empty
Ardal/Area 1	0	63.55/85.89	1	0.00%
Ardal/Area 2	4	78.06/104.36	12	33.00%
Ardal/Area 3 (stanciau-piles)	7	149.12/161.26	39	17.94%
Ardal/Area 4	5	17.95/18.43	10	50.00%
Ardal/Area 5	8	83.92/113.47	16	50.00%
Ardal/Area 6	8	77.95/105.36	8	100.00%
Ardal/Area 7	24	77.95/105.36	28	85.71%
	56		114	

- 2.4 Mae'r tabl uchod yn cyflwyno gwybodaeth am y nifer cychod a fu wedi eu hangori ym mhob ardal yn yr Harbwr Allanol. Tra bod yn ddymuniad a gofyn gan rhai defnyddwyr i barhau gyda chynnal a chadw Ardal 5 ac Ardal 6 mae yn anorfod ystyried y gwerth ariannol yn erbyn y gost yn enwedig wrth ystyried fod nifer angorfeydd 'stanciau' yn rhydd yn yr Harbwr allanol.
- 2.5 Pe bydd gofyn am angorfeydd yn Ardal 5 a 6 y bwriad yw bod yr holl offer angorfeydd presennol yn cael eu codi (neu golli yn y mwd pen a fydd yn bosibl ei arbed) gan ail osod un rhes o angorfeydd 'ôl a blaen' yn yr ardal. Golygai bydd capasiti i angori hyd at 10 cwch gydag uchafswm hyd 26 troedfedd yn yr ardal hon.
- 2.6 Mae cyfanswm 1001 Cwch Pŵer wedi cofrestru yng Ngwynedd yn 2016. Mae hyn yn cymharu gydag 987 a fu wedi cofrestru yn 2015. Roedd 110 wedi cofrestru yn harbwr allanol Pwllheli gyda'r cyfan wedi cofrestru yn unol â threfniant allanoli rheolaeth llithrfa'r harbwr allanol.
- 2.7 Mae 729 o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru yng Ngwynedd yn 2016. Mae hyn yn cymharu gydag 696 a fu wedi cofrestru yn 2015. Roedd 46 wedi cofrestru yn harbwr allanol Pwllheli gyda'r cyfan wedi cofrestru yn unol â threfniant allanoli rheolaeth llithrfa'r harbwr allanol.

3. Cod Diogelwch Morwrol

- 3.1 Mae copi gwreiddiol o'r Cod Diogelwch Morwrol eisoes wedi ei ddsbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor ac mae hefyd ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd. Mae'r Uwch Swyddog Harbyrau mewn ymgynghoriaeth a chydweithwyr harbyrau yn adolygu'r Cod Diogelwch.
- 3.2 Rydym yn rhagweld bydd Uwch Arolygydd Gwylwyr y Glannau yn ymweld â'r Cyngor yn fuan yn 2017 er archwilio'r Cod Diogelwch a chyflwyno adborth ar y Cod sydd yn berthnasol i harbyrau bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd. Er na fod y cod yn statudol mae yn ymarfer da i gydymffurfio a gofynion y cod.
- 3.3 Mae'r ddogfen yn cael ei adolygu yn rheolaidd ac mae yn anorfod derbyn sylwadau a barn y Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i weithgareddau Harbwr Pwllheli. Mae yn bosibl ychwanegu rhannau i'r cod a fydd yn berthnasol i Harbwr lleol.
- 3.4 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi codi yn Harbwr Pwllheli yn ystod 2016 ac sydd yn berthnasol i ddiogelwch yr Harbwr.

4. Mesuryddion Perfformiad

- 4.1 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu Mesuryddion Perfformiad mewn perthynas â rheolaeth yr harbyrau. Gwahoddwyd syniadau ac awgrymiadau cychwynnol ar fesuryddion perfformiad gan aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf. Gofynnir fod Aelodau yn ystyried a fu angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ger bron y Pwyllgor Ymgynghorol yng nghyd-destun dangosyddion a mesuryddion at y dyfodol.
- 4.2 Pwrpas mesuryddion o'r fath yw mesur a monitro deilliannau'r gwasanaeth a gynigir. Wrth lunio mesuryddion o'r fath, mae'r Gwasanaeth yn sicrhau fod unrhyw wybodaeth

neu ddata yn gyfredol; yn berthnasol; ac yn addas a chlir i'w craffu gan Aelodau yn y Pwyllgor Ymgynghorol. Ni chyflwynir Gwybodaeth oni bai fod yr Aelodau o'r farn fod y wybodaeth yn ddefnyddiol ar gyfer yr Harbwr.

5. Prif Faterion

5.1 Mordwyo

5.1.1 Cafwyd archwiliad gan Awdurdod Goleudai Ty'r Drindod ar y 26ain Gorffennaf 2016. Mewn cymhariaeth ac adroddiadau blaenorol roedd adroddiad 2016 yn cadarnhau gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau a chyflwr Cymhorthion Mordwyo harbryau yng Ngwynedd. Mae hyn yn galonogol.

5.1.2 Mae pryder yn parhau ynglyn â Chymhorthydd Mordwyo 'Hafan y Môr' sydd yn parhau oddi ar ei safle. Fe fydd y Cyngor yn gohebu gyda rheolwyr 'Hafan y Mor' yn tynnu sylw at y gofyn fod angen ail leoli'r Cymhorthydd Mordwyo ar ei safle fel mater brys. Er nad y Cyngor sydd yn berchen neu yn gyfrifol am y Cymhorthydd Mordwyo'r y Cyngor yw'r 'Awdurdod Goleudy Lleol' ac felly cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau fod perchennog y Cymhorthydd Mordwyo yn cydymffurfio a gofynion Ty'r Drindod.

5.1.3 Nid oes Rhybudd i Forwyr mewn grym ar gyfer harbwr Pwllheli. Mae holl gymhorthion mordwyo'r Harbwr ar eu safle priodol.

5.1.4 Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol penderfynwyd parhau gyda lleoli bwiau parth cyflymder uchaf tymhorol oddi fewn ardal yr Harbwr sydd gyferbyn a thraeth Marian y De. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor gweithredwyd ar fan welliannau bwiau parth cyflymder uchaf ardal Glandon. Ychwanegwyd i'r nifer fwiau yn ystod tymor yr haf gan fod cychod pŵer yn tramwyo yn agos at y lan ar gyflymder uchel ar adegau.

5.1.5 Er cwblhau man welliannau derbyniwyd sawl cwyn gan y cyhoedd a fu yn bryderus iawn am gychod pŵer a fu yn mordwyo ar gyflymder uchel drwy'r safle yn ardal Glandon. Mae'r Gwasanaeth wedi adnabod y cwch ac mae perchennog y cwch wedi derbyn llythyr o rybudd.

5.2 Cynnal a chadw

5.2.1 Gwelir crynodeb ynghlwm. Cyflwynir adroddiad llafar am drefniadau a rhaglen waith cynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo harbwr Pwllheli gan y Rheolwr Harbwr yn y cyfarfod.

5.2.2 Bydd Rheolwr yr Harbwr hefyd yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Pwllheli yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr ac yn cyflwyno amlinell o'r rhaglen waith a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr – Mawrth 2017. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried yn y cyfnod hwn.

5.3 Materion Staff

5.3.1 Mae trefniadau adolygol ynglŷn â strwythur staff harbwr Pwllheli yn parhau. Yn dilyn llwyddiant yr ad drefniant sydd wedi ei dreialu rhagwelir bydd y trefniant yn parhau at y

dyfodol agos. Fe fydd y Gwasanaeth yn adolygu trefn goruchwyliaeth diogelwch a goruchwyliaeth nos. Mae goruchwyliaeth yr Hafan yn parhau dros gyfnod 24/7 ac mae angen adolygu a yw'r trefniant hwn yn effeithiol.

5.3.2 Mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr (tymhorol) Aberdyfi a Porthmadog wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd Hydref 2016. Fe fydd dau gymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm Morwrol ehangach er sicrhau bod yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw.

5.4 **Materion Gweithredol**

5.4.1 Strategaeth Garthu - cyflwynir diweddariad ar y Strategaeth Garthu a'r gwaith sydd ynghlwm a'r Strategaeth Garthu yn y cyfarfod.

5.4.2 Trefniant carthu ceg yr harbwr - gaeaf 2016/17. Bydd y Gwasanaeth yn cynnal archwiliad o'r sianel yn ystod y llanw isel mwyaf ffafriol ym mis Hydref/Tachwedd

5.4.3 Adolygu trefniant angorfeydd harbwr allanol. Bydd y Gwasanaeth yn gwahodd amcan bris gan gwmnïau lleol i dynnu holl angorfeydd presennol allan o Ardal 5 ac Ardal 6 ac i ail osod un rhes o angorfeydd ar y llinell fwyaf ffafriol.

5.4.4 Gosodwyd sistem Teledu Cylch Gyfyng Newydd yn yr Harbwr allanol er gwella diogelwch y safle. Mae'r sistem yn gweithio yn ardderchog.

6. **Materion Ariannol**

6.1 Fe fydd crynodeb o gyllidebau'r Harbwr yn cael ei gyflwyno ger bron Aelodau yn y cyfarfod. Bwriedir cyflwyno wybodaeth ar y sefyllfa ariannol gyffredinol, sefyllfa incwm a gwariant hyd at ddiwedd Chwarter 2 (Ebrill-Medi) o'r flwyddyn ariannol gyffredol.

6.2 Bydd ffioedd a thaliadau'r Harbwr Allanol ar gyfer 2017/18 yn cael ei ystyried yn ystod yr wythnosau nesaf. Rhagwelir bydd graddfa chwyddiant Harbyrau Gwynedd ar gyfer 2017/18 yn 1.84%. Rhagwelir felly mae yn debygol bydd ffioedd a thaliadau yn cynyddu er cwrdd â'r raddfa chwyddiant.

6.3 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw angorfeydd Ardal 5 a 6
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff

7. **Hafan Pwllheli (Marina)**

7.1 Yn 2016/17 mae ffigyrau angorfeydd ar gyfer yr Hafan fel a ganlyn; -

- Mae 287 cwch ar angorfa pontwn blynyddol sef 68% o'r cyfanswm nifer angorfeydd pontwn sydd ar gael. Mae hyn yn cymharu gyda 292 cwch a fu ar angorfa pontwn yn 2015.

- Mae 52% o'r cwsmeriaid blynyddol gyda chwch hwylio. Mae 48% gyda chychod pŵer.

- Mae 19% yn breswyl yng Ngwynedd gyda 81% yn breswyl tu allan i Wynedd.

- Mae 1 cwch masnachol yn yr Hafan sef cwch siarter (pysgota.)

- 7.2 Er lleihad yn y nifer ar angorfa pontwn drwy'r flwyddyn, ar y cyfan nid oedd newid sylweddol yn y nifer cwsmeriaid a ddefnyddiwyd yr adnodd dros y tymor a fu.
- 7.3 Mae 1001 o Gychod Pŵer wedi cofrestru yng Ngwynedd yn 2016. Mae hyn yn cymharu gydag 987 a fu wedi cofrestru yn 2015. Roedd 119 wedi cofrestru yn yr Hafan drwy drefniant cwmnïau Parcio a Lansio.
- 7.4 Mae 729 o Fadau Dwr Personol wedi cofrestru yng Ngwynedd yn 2016. Mae hyn yn cymharu gydag 696 a fu wedi cofrestru yn 2015. Roedd 56 wedi cofrestru yn yr Hafan drwy drefniant cwmnïau Parcio a Lansio.

8. Prif Faterion

8.1 Cynnal a chadw

- 8.1.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw yr Hafan gan y Rheolwr Harbwr yn y cyfarfod.
- 8.1.2 Bydd Rheolwr yr Harbwr hefyd yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Pwllheli yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr ac yn cyflwyno amlinell o'r rhaglen waith a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr – Mawrth 2017. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried i'w gyflawni yn y cyfnod hwn.

8.2 Materion Staff

- 8.2.1 Adroddwn i aelodau ar y tristwch mawr a fu ganlyn colli cydweithiwr cydnabyddus, cyfeillgar a chydwybodol, sef Mr Tony Hughes. Collodd Tony ei frwydr yn erbyn salwch difrifol ar y 1af Ebrill 2016. Fe fu i Tony fod yn gyflogedig i'r Cyngor ers sawl blwyddyn a hyn yn dilyn cyfnod gyrfa lwyddiannus gyda'r Llynges Frenhinol. Fe fydd yn golled fawr i'r uned.
- 8.2.2 Mae trefniadau adolygol a strwythur staff Hafan Pwllheli yn parhau. Yn dilyn yr ad drefniant rhagwelir bydd y trefniant presennol yn parhau at ddechrau 2017.
- 8.2.3 (gwelir adroddiad Harbwr Allanol) Yn dilyn newidiadau yn strwythur staff Hafan Pwllheli yn ystod 2015 mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr (tymhorol) Abermaw ac Aberdyfi wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd Rhagfyr 2016. Fe fydd dau gymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm ehangach er sicrhau bod yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw Hafan ac harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw.

9. Materion Ariannol

- 9.1 Fe fydd crynodeb o gyllidebau'r Hafan yn cael ei gyflwyno ger bron Aelodau yn y cyfarfod. Bwriedir cyflwyno wybodaeth ar y sefyllfa ariannol, incwm a gwariant hyd at ddiwedd Chwarter 2 (Ebrill-Medi) o'r flwyddyn ariannol gyfredol.
- 9.2 Bydd ffioedd a thaliadau'r Hafan ar gyfer 2017/18 yn cael ei ystyried yn ystod yr wythnosau nesaf. Rhagwelir bydd graddfa chwyddiant Hafan ar gyfer 2017/18 yn 1.12%. Rhagwelir felly bydd angen ystyried y raddfa chwyddiant ac ystyried a fydd angen cynnyddu ffioedd a thaliadau yr Hafan er cwrdd â'r raddfa chwyddiant.

- 9.3 Yn yr Hafan cyflwynwyd trefn amgen i'r drefn arferol o godi ffi angorfa pontŵn. Mae dwy drefn mewn bodolaeth yn yr Hafan. Mae trefn hanesyddol, ble mae rhai cwsmeriaid, (sef cwsmeriaid sydd yn yr Hafan ers dros 10 mlynedd bellach) yn talu at Uchafswm Hyd Gwch (LOA.) Mae cwsmeriaid a fu wedi angori mwy diweddar yn yr Hafan yn talu uchafswm gwerth yr angorfa ar drefn 'Bandio' (Banding.)
- 9.4 Mae angen ystyried unioni'r drefn ffioedd angorfa pontŵn yr Hafan. I'r perwyl hwn, bydd swyddogion yn ystyried yr oblygiadau ariannol ac yn cyflwyno argymhelliad i'r Arweinydd Portffolio mor fuan ag sydd bosibl. Gwerthfawrogir barn yr Aelodau ar gysoni'r drefn, gan ystyried dychwelyd at drefniant Uchafswm Hyd Gwch (LOA) yn Hafan Pwllheli pe byddai yn briodol i wneud hyn heb amharu ar y gyllideb.
- 9.5 Cadarnheir fod gostyngiad mewn cost taliadau angorfeydd drwy Ddebyd Uniongyrchol wedi ei awdurdodi ar gyfer 2016/17. Mae'r canran wedi gostwng lawr o 8% i 5% gyda thaliadau yn cael eu lledaenu dros gyfnod 10 mis.

Hafan

2015	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
i fyny at 6m	6	2130.01	22	27.27%
i fyny at 8m	4	2840.03	32	12.50%
7m i 10m	43	3549.18	158	27.21%
10m i 12m	34	4260.06	111	30.63%
12m i 13.5m	20	4792.56	60	33.33%
13.5m i 15m	5	5325.07	24	21%
dros 15m	0	7099.82	2	0%
	112		409	21.68%

Harbwr

2015	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
Ardal 1	0		1	0.00%
Ardal 2	0		12	0.00%
Ardal 3	4		39	10.25%
Ardal 4	3		10	30.00%
Ardal 5	0		16	0.00%
Ardal 6	0		8	0.00%
Ardal 7	23		28	82.00%
	30		114	26.31%

Hafan

2016	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
i fyny at 6m	8	2130.01	22	36.36%
i fyny at 8m	3	2840.03	32	9.37%
7m i 10m	44	3549.18	158	27.84%
10m i 12m	38	4302.66	111	34.23%

12m i 13.5m	22	4840.49	60	36.66%
13.5m i 15m	7	5378.32	24	29%
dros 15m	0	7170.82	2	0%
	122		409	29.82%



Harbwr

2016	Heb ei osod	Gost yr Angorfa	Nifer ar gael	Canran yn wag
	No Empty	Berth Fee	No of berths available	Percentage empty
Ardal 1	0	63.55/85.89	1	0.00%
Ardal 2	4	78.06/104.36	12	33.00%
Ardal 3	7	149.12/161.26	39	17.94%
Ardal 4	5	17.95/18.43	10	50.00%
Ardal 5	8	83.92/113.47	16	50.00%
Ardal 6	8	77.95/105.36	8	100.00%
Ardal 7	24	77.95/105.36	28	85.71%
	56		114	


18 cwch wedi symud i bontwns Plas Heli
18 vessels moved to Plas Heli's pontoons

Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Medi 2016
Annual Statistics for *Hafan Pwllheli* - to September 2016


Tud. 15




Nifer o gychod ymwelwyr mewn blwyddyn - No. of visiting vessels per year




Cyfanswm medr cychod ymwelwyr - Total mts visiting vessels




Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No. of vessels on the Expressions of Interest list




Cychod Hwyl/Pwer ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No of Sail/Power vessels on the Expressions of Interest list




Nifer o gychoed Hwyllo/Pwer yn yr Hafan - No. of sailing/power vessels in the Hafan



Preswyl yng Ngwynedd/Residing In Gwynedd







Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gael - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth
Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March



	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Wedi gwerthu cwch/sold boat	2	12	15	12	20	7	13	9	
Ardal newydd/New Cruising Ground	5	4	10	12	26	8	7	5	
Parcio a lansio/Park and Launch	0	0	6	2	0	3	4	1	
Dim rheswm/No reason given	34	30	28	24	17	16	14	2	2
Rhu ddrud/Too expensive	14	3	6	2	3	1	1	3	
Methdalwr/Bankrupt	1	6	1	0	2	2	0	1	
Iechyd/Ill health	7	6	3	8	4	8	2	4	1
Blwyddyn allan/Year out	8	13	10	5	3	5	2	2	
Carthu/Dredging	0	2	2	8	4	0	0	1	
Cyfanswm/Total	71	76	81	73	79	50	43	28	3


Hyd at Medi 2016
Up to September 2016

Ystadegau Blynnyddol *Harbwr Pwllheli* - i Medi 2016
Annual Statistics for *Pwllheli Harbour* - to September 2016

Tud. 20







Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth
Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March

	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
Wedi gwerthu cwch/sold boat	3	4	0	0				
Ardal newydd/New Cruising Ground	0	0	17	0				
Parcio a lansio/Park and Launch	0	0	0	0				
Dim rheswm/No reason given	0	0	12	0				
Rhu ddrud/Too expensive	0	0	0	0				
Methdalwr/Bankrupt	0	0	0	0				
Iechyd/Ill health	0	0	0	0				
Blwyddyn allan/Year out	0	0	0	0				
Carthu/Dredging	0	0	0	0				
Cyfanswm/Total	3	4	29	0				

Hyd at Medi 2016
Up to September 2016 →

Gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio Harbwr/Hafan yn ystod gaeaf 2016/17

Harbwr

1. **Cwch Patrol Gwynedd** - Codi cwch rheolaeth yr Harbwr allan o'r dŵr. Bydd angen adnabod cwch newydd yn ystod y 12 mis nesaf gan ragwelir bydd costau cynnal a chadw'r cwch yn cynyddu o ganlyniad defnydd ac oed y cwch. Fe fydd y Gwasanaeth yn addasu cwch 'Y Syrfëwr' sydd wedi bod yn segur ers peth amser.
2. **Carthu** - mae gwaith Lefelu Gwely'r Môr (Bed Levelling) wedi bod yn llwyddiannus ac yn ffordd gost effeithiol o garthu sianel yr Harbwr. Fe fydd yn fwriad cynnal gwaith pellach yn y sianel cyn Gŵyl Y Pasg 2017. Fe fydd ceg yr Harbwr yn cael ei garthu yn unol â'r strategaeth garthu.

Gwaith cynnal a chadw cyffredinol

1. Cynnal a chadw pontŵn pysgotwyr.
2. Cynnal arolwg o gyflwr cyffredinol y pontŵn gan adnewyddu wyneb y pontŵn fel bod angen.
3. Adolygu a phaentio stanciau mordwyo.
4. Tynnu allan, glanhau, a phaentio'r Bwi Tramwyo.
5. Paentio a thacluso waliau'r toiledau a chawod yn adeilad allanol yr Harbwr.
6. Gosod mesur dyfnder dwr newydd yn geg yr Harbwr.-

Hafan

1. **CCTV** - Mae camera newydd TGC wedi cael ei osod. Ystyried y posibilrwydd creu linc o'r sistem TGC newydd yn y swyddfa harbwr i'r sistem monitro yn yr Hafan. Ystyried uwchraddio'r camerâu TGC eraill yr Hafan.
2. **Safle We** - mae'r safle we wedi ei uwchraddio. Rhagwelir bydd y safle we newydd yn fwy addas i cyfriadurion 'tablet' a ffonau symudol. Yn ogystal â chynnwys botwm i'r tywydd neu lefydd bwyta ac yn y blaen. Mae hefyd 'Cyfrifiannell' newydd sydd yn cyflwyno pris angorfa i'r cwch ar y sistem newydd.

Gwaith cynnal a chadw cyffredionol

1. Paentio pont mynediad pontŵn yr Hafan
2. Cynnal a chadw holl bontŵn yr Hafan (rhagwelir cyfnod gwaith 6 wythnos.)
3. Cynnal arolwg o'r gwaith coed y pontŵn a newid a thrwsio fel bod angen. Cynnal arolwg o fframwaith y pontŵn.
4. Cynnal a chadw tiroedd gwyrdd oddi amgylch yr Hafan.
5. Cynnal a chadw compownd gwaredu Gwastraff.
6. Cynnal a chadw rhwystrau Diogelwch.
7. Gwasanaethu'r 'Hoist'.
8. Adnabod arwyddion cyflymder uchaf '20 M.Y.A.' ar Ffordd Penrhyn Glandon (nid y Briffordd.)
9. Gosod lampau golau newydd ar bont mynediad i'r pontŵn
10. Cynnal a chadw ysgolion diogelwch y pontŵn a Chei'r Gogledd.
11. Glanhau a chynnal a chadw'r llithrfa.
12. Archwilio, glanhau a chynnal a chadw holl stanciau pontŵn yr Hafan.